# Cenn@d

GORFFENNAF 3 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 175

## Cyfnod newydd enwadol?

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Ar drothwy'r cynadleddau enwadol mae'r meddwl enwadol ar waith, yn arbennig ymysg yr arweinwyr, y staff a rhai aelodau o'r eglwysi. Fe fydd llawer iawn o sôn am genhadaeth yn y cynadleddau wrth i'r enwadau gyflwyno'u cynlluniau i'r dyfodol. Ac yng nghanol y sôn negyddol am ddirywiad, mae'n braf iawn cael cyfeirio at y datblygiadau cenhadol sydd ar droed gan yr enwadau Anghydffurfiol. Yn wir, mae lle i feddwl ein bod mewn cyfnod o arwyddion gobaith. Mae lle hyd yn oed i fynd ymhellach a gofyn: tybed a ydym wedi dechrau cyfnod newydd yn hanes yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid a holi a yw hi'n 'ddyddiau'r enwadol newydd'?

Nid oes dim yn newydd mewn dweud mai 'Duw cenhadol yw Duw' oherwydd mai Duw sydd yn symud yn barhaus o'r cylchoedd meidrol arferol (e.e. crefyddol, cyfundrefnol) i ymestyn ei Deyrnas, ei ddylanwad, ei gariad a'i fendith i eraill ydyw. Duw felly sy'n datguddio'i hun yn y Beibl. Er nad yw hyn yn dweud popeth am Dduw, mae cofio hynny'n hollbwysig yn ein hargyfwng. Mae'r eglwys yn bod yng Nghymru fel cyfrwng bregus y 'Duw cenhadol'. Ond mae bod yn rhan o 'genhadaeth Duw' yn ein hatal rhag bod yn 'enwadol' hefyd.

Mae grŵp 'Undod Cristnogol' o fewn Cristnogaeth 21, a chawsom gyfle i drafod hyn gydag Ysgrifenyddion yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid. Roedd mesur mawr o gytundeb rhyngom a thrafodwyd rhai awgrymiadau ymarferol. Roeddem yn ymwybodol, wrth gwrs, bod cyfrifoldebau'r swyddogion hyn yn llawer mwy ac yn llawer anoddach na'r hyn y medrir ei gwmpasu mewn trafodaeth â grŵp bychan o aelodau C21. Ond mwy am hyn cyn diwedd yr erthygl.

Mae un neu ddau o faterion i'w hystyried yn gyntaf:

1. Yn eu cynadleddau fe fydd trafod ar y cynlluniau cenhadol ac o safbwynt yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid, maent yn rhyddhau cyllid er mwyn hybu eglwysi lleol i arloesi mewn cenhadaeth. Mae ysgogi a hyrwyddo'r gweithgarwch hwn yn cael ei weinyddu'n effeithiol drwy swyddogion gweithgar yn swyddfeydd yr enwadau.

Fe wn, er enghraifft, fod Ysgrifennydd Cyffredinol newydd y Presbyteriaid (fy enwad fy hun) yn ardderchog iawn yn ei hymroddiad a'i chefnogaeth i hyrwyddo a chefnogi holl waith cenhadol ei henwad. Mae hyn yn wir am yr ysgrifenyddion cyffredinol eraill hefyd. Beth bynnag y gwahaniaethau enwadol a fu (er nad oes dim gwahaniaeth o werth sylfaenol erbyn hyn), mae pob enwad yn hyrwyddo, yn ganolog ac yn lleol, genhadaeth yr eglwysi. Mae'r tri enwad yn barod i fentro trwy gyfrwng eu henwad.

2. Yn gymharol ddiweddar fe wrthododd yr Annibynwyr ddod yn rhan o'r symudiad i greu un papur wythnosol cydenwadol Cymraeg. Roedd *Y Tyst* yn rhy werthfawr i ollwng gafael arno. Am wahanol resymau, aeth y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid ymlaen i sefydlu *Cenn@d*. Mae'r *Tyst* a *Cenn@d* (sydd i'w gael am ddim yn ddigidol) o safon uchel a'r gwaith i'w gynhyrchu yn rheolaidd raenus, gyda'r Bedyddwyr a'r Presbyteriaid yn rhannu'r gost a'r *Tyst* yn parhau i gynnwys nifer o erthyglau mewn adran cydenwadol. Mae'r Bedyddwyr hefyd yn cyhoeddi cylchgrawn chwarterol ar lein. Mae enwadaeth, felly, gydag ychydig o newidiadau, wedi ei chadarnhau unwaith eto, ac i bob golwg y *status quo* enwadol yw'r dyfodol.

3. Mae dylanwad y dehongliad/pwyslais efengylaidd ceidwadol wedi tyfu a datblygu'n fawr. Mae'n braf gweld, fodd bynnag, bod rhai o fewn y traddodiad hwnnw (e.e. Arfon Jones yn Llanw eleni) yn galw ar y rhai o argyhoeddiad efengylaidd i gofio mai Efengyl y Deyrnas yw Efengyl Iesu, efengyl sy'n ymwneud â holl genhadaeth Duw yn ei fyd. Annigonol yw'r efengylyddiaeth bersonol heb hynny. Anysgrythurol hefyd.

Un canlyniad y twf hwn yw 'Cant mewn Deg', sef y rhaglen i blannu cant o eglwysi efengylaidd mewn deng mlynedd. Mae rhai eisoes wedi eu plannu gan bobl ifanc sydd ar dân efengylaidd tros eu Harglwydd, ac mae'r rhwydwaith efengylaidd Cymru Gyfan yn hyrwyddo'r Cant i Gymru.

Mae nifer o fewn yr enwadau'n awyddus i ddangos cefnogaeth i'r datblygiad hwn oherwydd nid yw'r enwadau na'r genhedlaeth hŷn o fewn yr eglwysi am ymwrthod â ffydd cenhedlaeth iau. Wedi'r cyfan, mae nifer o'r bobl ifanc hyn â pherthynas agos â'r eglwysi, ac yn arbennig y rhai sydd â chysylltiad â mudiadau efengylaidd.

Rhaid cymryd yn ganiataol, wrth gwrs, y bydd 'Cant mewn Deg' yn cysylltu â'r eglwysi lleol, waeth pa mor wan ydynt, i sôn am y bwriad a'r gobaith o blannu eglwys newydd yn yr ardal. Fe fyddai'r eglwys leol yn siŵr o wahodd ei harweinwyr enwadol i'r drafodaeth leol honno. Ond, o fod yn barod i annog a chefnogi cenhedlaeth iau, fe fydd angen hefyd i'r enwadau obeithio y bydd plannu eglwys yn golygu plannu eglwys fydd yn gynhwysol ac yn hyrwyddo'r 'eglwys lydan agored yn y gymuned'. ('Pabell fawr – neu fechan! – heb ochrau iddi yw'r eglwys,' fel y dywedodd Leslie Newbigin).

Rhaid ein hatgoffa eto mai cenhadaeth Duw, nid cenhadaeth enwad nac unrhyw fudiad na rhwydwaith, yw plannu eglwysi newydd. Mae gwefan y 'Cant mewn Deg', gyda llaw, yn rhoi pwyslais arbennig ar y gymuned ac 'er mwyn y gymuned' ac mae'r erthygl am gymuned Ffestiniog, er enghraifft, yn werth i bawb ei darllen. Mae'r honiad o blannu 'eglwysi iach' yn cael ei ddefnyddio hefyd i hyrwyddo plannu'r cant, ond rhaid cwestiynu unrhyw ddefnydd o ansoddair felly i ddisgrifio eglwys newydd – na'r hen chwaith! Mae hynny'n wir am y gair 'iach' ac mae angen esbonio'i ystyr.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

**Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch** Tudalen 3

**Rali'r Egin Gwyrdd** Tudalen 5

**Solidariaeth** Tudalen 8

*Cyfnod newydd enwadol?*

*(parhad o dudalen 1)*

(Ar ôl ysgrifennu'r erthygl hon cyhoeddwyd erthygl gan Rhys Llwyd yn *Cenn@d*, rhif 173 (19 Mehefin 2024). Ynddi mae Rhys (gweinidog eglwys â thraddodiad efengylaidd, Caersalem (B) Caernarfon) yn dweud dau beth ynglŷn â 'phlannu eglwysi' a chenhadaeth yr eglwys enwadol leol.

Mae'r gweinidog yn cefnogi plannu eglwysi newydd ond y mae hefyd yn weinidog enwadol sy'n credu bod yn rhaid i eglwysi fod yn adlewyrchu diwylliant eang ein hoes. Dyma ddau ddyfyniad sy'n berthnasol i'r erthygl hon:

'Nid oes raid bod yn ddogmataidd am hyn [sef cred sylfaenol eglwys] ond mae angen bod yn glir ym mhwy yr ydym yn credu ac mai Ef – Iesu Grist – yw sylfaen ein ffydd a'n gobaith'.

'Carwn weld mwy o barch yn cael ei ddangos gan yr hen a'r newydd drwy werthfawrogi'r realiti ein bod yn un eglwys sy'n gweithio yn yr un winllan a'r un amcan sef dangos Crist i'n cyd-Gymry.')

4. Dyma ddod at air olaf yr erthygl. Gobaith Duw yw bod Ei genhadaeth yn cael ei gweddïo, ei chynllunio, ei threfnu a'i datblygu er mwyn cenhadaeth Duw a welwyd ym mywyd, croeshoeliad ac atgyfodiad Iesu – a hynny gan gredu a gwybod mai Ysbryd Duw ei hun fydd yn rhoi bywyd a gobaith i'r cyfan. Gweithredu yw cyfrifoldeb yr enwadau.

Ond yn y cyfnod newydd hwn rhaid i hynny gynnwys y 'Cant mewn Deg' yn ogystal â'r cenhadu enwadol. Dyma'r genhadaeth fydd yn dechrau ac yn gorffen ym mhresenoldeb Duw yn y gweddïo, y cynllunio, y paratoi ac yn llafur hirdymor y genhadaeth. Rhaid paratoi ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf heddiw.

Ar hyn o bryd nid oes gan yr enwadau raglen hirdymor ar gyfer cyfnod pan mae'r enwadol yn – ac yn hanes rhai, wedi – dod i ben. Annigonol yw – ac annigonol fydd ymdrechion enwadol i alwad mor fawr oherwydd yma ac acw ac achlysurol yw'r enwadol. Ac y mae Cant mewn Deg angen yr hyn sydd gan yr enwadau i'w roi! Dyma'r ffordd i wireddu ein gobaith am genhadaeth Cymru gyfan, ei chymunedau a'i bywyd cenedlaethol.

5. Fe wyddom fod angen ildio ac aberthu rhai o'n hymlyniadau mwyaf weithiau. Mae Cristnogion wedi credu a dweud hynny o'r dechrau oherwydd mai perthyn i'r cyfnod a'u hamgylchiadau mae pob rhaniad o fewn yr eglwys.

Mae ildio ac aberthu yn rhan o bob enwad, a hynny a ddylai arwain at blannu eglwysi newydd yn ffrwyth yr ysbryd cenhadol. Nid 'colli enwad' fyddai hynny ond bod yn ffyddlon i'r weledigaeth fu'n llosgi yn enaid arloeswyr cenhadaeth Duw. O na fyddai wedi dechrau o leiaf hanner canrif yn ôl!

Mae gan yr enwadau anghydffurfiol adnoddau cyfoethog. Mae ganddynt arian, eiddo, adeiladau i'w haddasu, canolfannau ac, yn arbennig, cariad ac ymroddiad cannoedd o bobl sydd a 'chalon i weithio â ffyddlondeb i'w Harglwydd'. Yn wir, yr ydym mewn sefyllfa i fod yn uchelgeisiol yn enw Duw ac i freuddwydio nes gwireddu breuddwydion.

6. Fe fydd gwaith a chenhadaeth yr enwadau yn parhau, wrth gwrs, ac mae'r ymdeimlad o'r 'enwadol newydd' sydd yn ein plith yn brawf o hynny. Ond rhaid i'r alwad i 'genhadaeth Duw' ddechrau ar unwaith. Mae'n ddyddiau 'troi at yr Arglwydd' yn wir. Rhaid llacio'r gafael ar gyfundrefnau a threfniadau a berthyn i'r dyddiau gynt ond sydd bellach yn gwbl ddiystyr yn niwylliant y Gymru hon.

Nid oes a wnelo'r erthygl hon ddim o gwbl ag uno'r enwadau, wrth gwrs, oherwydd perthyn i'r gorffennol y mae hynny. Ond mae Duw yn ein symud ymlaen.

Dyna pam y mae arweiniad arweinyddion enwadol yn hollbwysig. Nid oes raid dweud bod yr eglwys leol yn ganolog yng ngwaith Duw, ond mae'r argyfwng yn aros am leisiau arweinwyr enwadol dewr a radical fydd yn barod i rannu'r weledigaeth ehangach a phwysicach na'r enwadol. Mae'r weledigaeth yno yn y Beibl, yn ymwneud Duw â'i bobl.

Parodrwydd i'w lleisio a'i gweithredu yw'r angen. Does dim yn newydd yn yr alwad hon nac yn yr erthygl hon – ond does dim amser gwell na heddiw. A phan fyddwn ni'n ymateb, fe fydd ymateb Duw hyd yn oed yn fwy cadarnhaol!

Mae'n debygol iawn na fydd trafodaeth o'r fath yn y cynadleddau enwadol yn 2024, a'r tristwch yw na fydd, efallai, yn digwydd o gwbl. Yr ydym mor agos ac eto mor bell. Dyna ddagrau ein Hanghydffurfiaeth Gymraeg. Wrth gwrs, fe fydd capeli enwadol yn parhau yma ac acw yng Nghymru ac fe fydd eglwysi efengylaidd – mwy nag erioed, efallai. Ond fe fydd gweddi Iesu ar fod yn un fel mae Duw a'i Fab yn un, wedi ei hanghofio unwaith eto.

Efallai mai mwydro un o griw bychan ymylol yw hyn, gan un heb unrhyw gyfrifoldeb enwadol ond sydd am fentro dweud bod yn rhaid i ni bellach wynebu her a gwahoddiad cenhadaeth Duw gyda'n gilydd yng Nghymru'r dyfodol.

*Pryderi Llwyd Jones*

(Trwy ganiatâd Cristnogaeth21: https://www.cristnogaeth21.cymru/adnoddau)

# Cyflwyno Beiblau i blant

Pleser gan gapeli ac eglwysi Cymraeg tref Caerfyrddin barhau'r arferiad blynyddol o gyflwyno copi yr un o'r Beibl i ddisgyblion Blwyddyn 5 Ysgol Gynradd Gymraeg y Dderwen a Blwyddyn 4 Ysgol Gynradd Gymraeg Llangynnwr. Ariannwyd y Beiblau gan gasgliad Oedfaon Gŵyl Dewi Undebol Cymraeg Caerfyrddin 2024 a gynhaliwyd eleni yng Nghapel Heol Awst yn y bore ac yn Eglwys Sant Pedr yn yr hwyr. Dyma'r Parchg Beti-Wyn James, Cadeirydd Pwyllgor Oedfaon Gŵyl Dewi y dref, yn cyflwyno'r Beiblau, a hefyd aelodau o dîm Agor y Llyfr Ysgol Llangynnwr.

Tybed oes yna eglwysi eraill yng Nghymru yn cyflwyno rhoddion i blant Blwyddyn 6? Beth am yrru lluniau atom?



Ysgol Llangynnwr



Ysgol y Dderwen

# Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch

Y bore coffi a drefnwyd gan Eglwys San Pedr, Llanbed, yn Neuadd yr Eglwys ddydd Sadwrn, 11 Mai, roddodd gychwyn i ddigwyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbed eleni. Darparwyd gwledd o gacennau cartref blasus a digonedd o goffi neu de i dorri syched wrth fwynhau'r cyfle am glonc a rhoi'r byd yn ei le. Codwyd dros £300 er budd Cymorth Cristnogol.

Cynhaliwyd Oedfa Cymorth Cristnogol fore Sul, 12 Mai, yn Eglwys Sant Tomos, Llanbed. Bu cyfle wedi'r oedfa i gymdeithasu a mwynhau paned a *croissants*, a chafwyd casgliad o bron i £200 er budd yr elusen.

Taith gerdded noddedig dan ofal aelodau chwech o gapeli Undodiaid Aeron Teifi gynhaliwyd y prynhawn Sul hwnnw. Roedd y daith yn dilyn y llwybrau o Bontrhydfendigaid draw at Abaty Ystrad-fflur, lle mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i ddarganfod rhagor am faint y sefydliad ac adfer yr hen ffermdy. Codwyd dros £300 at Gymorth Cristnogol a derbyniwyd hefyd rodd o £200 o'r casgliad a wnaed yng Nghymanfa Ganu Annibynwyr Llanbed a'r Cylch yng Nghapel Soar, Llanbed, nos Sul, 12 Mai.

Daeth y byd a'r betws i Ganolfan Bentref Cwm-ann fore Llun, 13 Mai, i'r bore coffi a drefnwyd gan Eglwysi Plwyf Pencarreg a Chapel Bethel, Parc-y-rhos. Croesawyd pawb gan y Parchedig Carys Hamilton a chyflwynwyd y diolchiadau gan Twynog Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch. Cyfeiriodd at bwysigrwydd Wythnos Cymorth Cristnogol a chroesawu Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, i annerch y bore coffi.

Cyfeiriodd hithau at waith Cymorth Cristnogol a'r ymgyrch codi arian ym Mai yn canolbwyntio'n benodol ar wlad Burundi, Affrica. Soniodd am Aline a'i theulu sy'n byw yn Burundi a sut y daethant i wybod am Gymorth Cristnogol. Derbyniodd Aline gefnogaeth a hyfforddiant gan asiantaethau lleol a ariannwyd gan Gymorth Cristnogol. Mae ganddi bellach fusnes ei hunan sy'n dod ag incwm i'w chefnogi hi a'i theulu. Newidiodd Cymorth Cristnogol ei bywyd o un o dlodi enbyd i un yn llawn gobaith am ddyfodol gwell. Diolchwyd i Mari McNeill am ei chyflwyniad ac am gefnogi'r bore coffi, lle codwyd £1,100 tuag at Gymorth Cristnogol

Capel Brondeifi, Llanbed, groesawodd drigolion Llanbed a'r cylch am 'Frecwast Mawr' fore Mercher, 15 Mai. Dechreuodd y coginio am 7 y bore dan arweiniad Delyth Jones a'i merched Meinir a Meleri a thîm profiadol o wirfoddolwyr. Diolchodd Twynog Davies i'r Parchedig Wyn Thomas, Gweinidog Capel Brondeifi, a'r aelodau am y brecwast, lle codwyd dros £2,000 tuag at waith Cymorth Cristnogol.



Y criw gweithgar fu'n paratoi'r 'Brecwast Mawr' yn festri Brondeifi

Cynhaliwyd taith noddedig arall nos Fercher, 15 Mai, dan ofal Capel Bethel, Silian, ger Llanbed. Cafwyd taith hyfryd ar noson braf o wanwyn dan arweiniad Beryl Williams ac Alun Jones. Aeth y gylchdaith o bentref Silian i gyfeiriad ffermydd Gwarffynnon a Phantmawr a gwesty Glynhebog, yna heibio bythynnod Tŷ Hen a Llyn Glynhebog yn ôl i Silian. Diolch i Gapel Bethel am gyfrannu dros £550 i Gymorth Cristnogol.

Mae rhagor o hanes y gweithgareddau hyn i'w gweld ar wefan Clonc 360

Derbyniwyd cyfraniadau hefyd o eglwysi Caersalem, Parc-y-rhos; Erw, Cellan; a Noddfa, Soar a Shiloh yn Llanbed. Dosbarthwyd blychau casglu arian yn nifer o siopau a busnesau Llanbed a Llanybydder, gan godi bron i £150. Yn sgil yr holl ymdrechion hyn, codwyd cyfanswm anrhydeddus o dros £5,000 hyd yn hyn yn ardal Llanbed. Wrth ddiolch i bawb am eu cyfraniadau, cyfeiriodd Twynog Davies at bwysigrwydd Cymorth Cristnogol:

'Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, gall pob un ohonom gynnig cymorth trwy ein rhoddion i'r cannoedd o brosiectau cymunedol sydd yn mynd i wella safon byw teuluoedd ar draws y byd. Bydd yr arian a gaiff ei gasglu eleni yn mynd at ymgyrch ryngwladol Cymorth Cristnogol ac yn canolbwyntio'n arbennig ar wlad Burundi, Affrica. Bydd ein rhoddion yn helpu pobl Burundi i gael y wybodaeth a'r sgiliau maent eu hangen i dyfu bwyd, prynu meddyginiaeth, rhoi addysg a gwella eu hamodau byw. Diolch yn fawr iawn am gefnogi gwaith elusennol Cymorth Cristnogol, gwaith mor bwysig ag erioed yn y cyfnod heriol yma lle mae cymaint o angen yn y byd.'

*Rhys Bebb Jones*
(ar ran Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch)


Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, yn annerch y bore coffi yng Nghanolfan Bentref Cwm-ann


Rhai o'r criw fu ar y daith gerdded noddedig yn ardal Silian a Llanbed


## Henaduriaeth Salem, Dolgellau

Nos Fawrth, 18 Mehefin, mewn cyfarfod o Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd a gynhaliwyd yng Nghapel Salem, Dolgellau, estynnwyd deheulaw cymdeithas i'r Parchedig Gwyn Rhydderch, Tudweiliog, gan Lywydd y Gymdeithasfa, fel blaenor newydd. Yn ogystal, croesawyd yn ôl ŵr a oedd wedi ei ordeinio o'r blaen, sef Mr Terry Hughes. Bydd y ddau ohonynt yn gwasanaethu fel blaenoriaid yng Nghapel Tudweiliog. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i longyfarch Dr Gwynne Wheldon Evans, Capel y Porth, Porthmadog, ar gyflawni deugain mlynedd o wasanaeth fel blaenor.

*Dwyryd Williams*



(O'r chwith i'r dde) Y Parch. Iwan Llewelyn Jones (Llywydd yr Henaduriaeth), y Parch. Gwyn Rhydderch, Dr Gwynne Wheldon Evans, Mrs Meinir Lloyd Jones (Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd), Mr Terry Hughes, Mr Gerallt Hughes (Cyn-lywydd yr Henaduriaeth), Y Parch. W. Bryn Williams (fu'n ymddiddan â'r ddau flaenor newydd)




### CWRS Ieuenctid: 29 Gorffennaf – 2 Awst – i ieuenctid 11–14 oed

4 diwrnod yn llawn gemau, crefftau, chwaraeon, sioe dalent, disgo, gweithgareddau ar y llyn, trip, *s'mores* o amgylch y tân a llawer mwy.
Yn ystod ein hamser gyda'n gilydd byddwn yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw.
Y gost yw £130 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau; mae'n ½ pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

### Anhrefn Awst: 12–15 Awst – i blant 8–11 oed

Gemau gwirion, canu, storïau o'r Beibl, crefft, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, *s'mores* o amgylch y tân, trip a llawer mwy. Y gost yw £100 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau; mae'n 1/2 pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

### Souled Out: 17–22 Awst – i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc!

Cyfle grêt ar ddiwedd yr haf i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl!
Y prif sesiynau bob amser yw uchafbwynt SOULED OUT, wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano trwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl!

Bydd rhai seminarau ymarferol hefyd i arfogi ac ysbrydoli,
a grwpiau bach i'n helpu ni i feddwl trwy'r hyn ni'n clywed.

Bydd llwyth o bethau hwyl i bawb eu gwneud hefyd!
Dros y blynyddoedd, rydyn ni wedi mwynhau *inflatables* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, padlfyrddio, *s'mores* rownd y tân – a mwy!
Y pris yw £134!

# Rali'r Egin Gwyrdd

Mae Rali'r Egin Gwyrdd wedi dod yn draddodiad erbyn hyn, a does dim amheuaeth nad dyma uchafbwynt calendr Cymanfa Bedyddwyr Penfro. Eleni daeth pobl ifanc ein hysgolion Sul i Gapel Blaenffos i gael eu cydnabod am bopeth maen nhw'n ei wneud yn ystod y flwyddyn.

Dechreuodd yr oedfa drwy ddangos ffilm o uchafbwyntiau'r flwyddyn. A diolch i Aneira, Ela ac Erin am y rhannau arweiniol arbennig yn dilyn y thema 'Ffrindiau Iesu'. Yna, cawsom hanes a ffilm am brosiect Esgyn gan rai o'r criw aeth i Dreharris 'nôl ym mis Chwefror.

Cleif Harpwood oedd ein siaradwr gwadd eleni. Diolch yn fawr iddo am annerch y gynulleidfa hardd â hanesion o'i fywyd. Uchafbwynt yr anerchiad i mi oedd yr emyn wnaeth Cleif ei hunan ei ysgrifennu, sef 'Iesu'n ffrind i mi'. Fe wnaeth pawb ymuno yn y cytgan bachog:

Mae'r Iesu'n ffrind i mi,
y ffrind gore sy.
Ac mi fydda i'n driw
i'r Iesu tra bwyf byw.

Mae'r Iesu'n ffrind i mi,
y ffrind gore sy.
Ac rwyf wrth fy modd
bod Iesu'n ffrind i mi.

Diolch i'r band, sef y Parchg Rhosier Morgan, Meiddyn Ladd Lewis a Trystan Phillips, am gyfeilio i Cleif yn yr oedfa.

Fe ddaeth Llywydd newydd y Gymanfa, Mrs Elinor Thomas, Croesgoch, i gyflwyno tystysgrifau a thaleb i'r bobl ifanc. Ond, yn sicr, roedd y plant yn llawer mwy cyffrous am y losin wnaeth Cleif eu rhannu gyda nhw!

Diolch i weinidog a swyddogion Capel Blaenffos am adael i'r pwyllgor gael defnydd o'r capel, a hefyd i Mrs Catrin Davies a Meiddyn Ladd Lewis am gyfeilio i'r emynau.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn ein hysgolion Sul, gyda diolch anferth, wrth gwrs, i'r athrawon gweithgar sy'n sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cymaint o gyfleoedd.

*Sian Elin Thomas*








# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 31**
**Ffydd mewn Chwaraeon**

### Gweddi
Ymdawelwn, Arglwydd, o'th flaen a gofyn am dy arweiniad a'th fendith wrth ddilyn yr uned hon. Diolch am bob esiampl sydd gennym o Gristnogion yn dangos eu ffydd ynot drwy gyfrwng eu gwaith. Helpa ni i redeg ein gyrfa ac i gadw'r ffydd. Amen.

### Darlleniad: 2 Timotheus 4:1–8
'Yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, yr wyf wedi cadw'r ffydd.' (adn. 7)

### Cyflwyniad
Mae'n siŵr fod Paul yn gyfarwydd â nodweddion cystadleuol mabolgampau'r ymerodraeth Rufeinig, ac iddo ddefnyddio'r ddelwedd o athletwr wrth sôn amdano'i hun yn ei siars olaf i Timotheus, ei fab yn y ffydd. Dywed ei fod yn ymwybodol nad oes llawer o amser ganddo ar ôl ac y byddai'n cael ei ladd, 'aberth' yw'r gair yn y bennod hon. Ceir tair delwedd ganddo, sef 'ymdrechu'r ymdrech lew', 'rhedeg yr yrfa' a 'cadw'r ffydd'.

Roedd yr Olympiad gwreiddiol yng ngwlad Groeg wedi'i sefydlu yn yr wythfed ganrif cc ac wedi parhau am bedair canrif, cyn yr Olympiad cyfoes sy'n ymestyn 'nôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yr un nodweddion sylfaenol i'r cystadlaethau hyn, sef ymdrech, dyfalbarhad a dygnwch wrth y dasg. Bydd pencampwyr ein cyfnod yn pwysleisio wrth yr ifanc sy'n dechrau ar unrhyw feistrolaeth o lwyddiant ym myd y campau fod angen dyfalbarhad diddiwedd wrth gryfhau corff a meistrolaeth ar y daith.

Cynnig arweiniad i Timotheus yr oedd Paul, gan sylweddoli y byddai'r gŵr ifanc hwn yn ddolen bwysig rhyngddo ef ei hun a'r eglwysi yn yr ail ganrif. Ar un wedd, roedd Paul yn hyfforddi Timotheus i ddal ati yng ngweinidogaeth yr eglwys ac yn ei annog i ymroi i rannu a byw'r ffydd Gristnogol.

### Myfyrdod
Mae'r eglwys yng Nghymru a thu hwnt wedi sylweddoli bod cenhadaeth yn bwysig drwy fyd y campau, ac mae'r cyrff enwadol wedi cefnogi Caplaniaeth Chwaraeon Prydain drwy roi grantiau iddynt ddatblygu caplaniaid ym mhob math o feysydd. Yr amlycaf ohonynt yng Nghymru yw Steve Jones, sy'n gyfarwyddwr Caplaniaeth Chwaraeon yng Nghymru. Ceir dwy wedd ar waith y gymdeithas hon, sef darparu pobl mewn clybiau proffesiynol ac amatur i roi gwedd ysbrydol i'r gofal sy'n cael ei gynnig yn y mannau hyn, a helpu Cristnogion o blith y sêr proffesiynol i roi tystiolaeth am eu ffydd yn Iesu Grist i'r rhai sy'n dilyn y campau hyn. Er mwy dysgu mwy amdanynt, ewch i wefan www.sportschaplaincy.org.uk

Bydd amryw wedi clywed am waith y Parch. Eirian Wyn (Rosfa) fel caplan yng nghlwb pêl-droed Abertawe, ac mae hanes Michael Jones, blaenasgellwr Seland Newydd yn 1987, yn enwog pan wrthododd chwarae yn y gêm gynderfynol yng nghystadleuaeth gyntaf Cwpan y Byd am ei fod yn Gristion. Person arall a wrthododd chwarae rygbi ar y Sul yw Euan Murray, prop o'r Alban, ac mae llu o bobl eraill yr un mor daer dros eu ffydd.

Drwy gefnogi'r gwaith hwn mae'r eglwysi'n hyrwyddo gwasanaeth a chenhadaeth Cristnogol ar lwyfannau'r campau er lledaenu'r deyrnas. Mae llawer o bobl sy'n barod i uniaethu eu hunain fel Cristnogion mewn chwaraeon, ond i ba raddau y bydd eraill yn ein hadnabod ni fel pobl ffydd, pa lwyfan bynnag y cerddwn arno? 'Boed i eraill drwom ni / adnabod cariad Duw.'

### Gweddi
Maddau inni, nefol Dad, am golli sawl cyfle i rannu ein ffydd gyda phobl a fydd yn sylwi arnom. Diolchwn am dystiolaeth pobl ar lwyfannau campau o bob math. Diolch i ti am y gras sy'n cael ei gyflwyno yn eu bywydau hwy. Amen.

### Cwstiynau i'w hystyried
1. Roedd yr ymerodraeth Rufeinig yn hyrwyddo campau athletaidd, ac mae'r ddelwedd wedi ymdreiddio i eirfa'r apostol. Pa nodweddion o fyd y campau sy'n addas i ddisgrifio bywyd y Cristion? E.e. ymarfer gras a gweddi, gwaith y tim cyfan, sylwi ar gynllun yr hyfforddwr. Ychwanegwch at y rhestr.
2. Wrth edrych 'nôl ar ein gyrfa, a allwn nodi enghreifftiau lle roeddem yn ymwybodol bod yr hyfforddwr yn rhedeg wrth ein hochr?
3. A oes cyfnod o ddiffygio neu flinder wedi ein goddiweddid?
4. Bydd timau cenedlaethol yn ymfalchïo yn eu baner, ond a fyddwn ni yn ymfalchïo ym maner Iesu?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Gorffennaf, am 7:30yh – Uchafbwyntiau 2**
Yn rhaglen ola'r gyfres bydd Nia Roberts yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn, yn cynnwys taith i'r Almaen i gwrdd â John Sam Jones a stori Caitlin Kelly a'i gwaith dyngarol yn Wcráin a Gaza. A chawn fwynhau canu mawl ysbrydoledig o bob cwr o Gymru.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Gorffennaf, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Dylan Rhys

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 7 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Corey a Catrin Hampton, yr Wyddgrug

# Gwyl Dwy Awdures Gymraeg o Lannau Mersi

Braint oedd cael cymryd rhan ganol mis Ebrill yn yr ŵyl ddiweddaraf i'w chynnal gan Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi yn dathlu diwylliant Cymraeg Lerpwl a Chilgwri. Ni allaf feddwl am unrhyw ŵyl Gymraeg arall sy'n cael ei threfnu'n gyson fel hyn er mwyn dathlu cyfraniad Cymry lleol.

Y tro yma, gŵyl i gofio llenorion a chantorion oedd hi, yn benodol er mwyn clodfori dwy awdures Gymraeg, sef Gweneth Lilly a Marion Eames. Ganed Gweneth Lilly yn Lerpwl a'i magu yn Everton ac Anfield. Ganed Marion Eames ym Mhenbedw a'i magu yno ac yn Nolgellau. Dwy ferch a aned ar y Glannau ac a wnâi gyfraniad enfawr i'r diwylliant Cymraeg.

Nid yw llenorion benywaidd wedi cael sylw digonol yn ein beirniadaeth lenyddol. Yn yr un modd, bu tuedd i anwybyddu llenyddiaeth Gymraeg o Loegr, er mor gyfoethog ydyw. Felly roedd yr ŵyl hon yn achlysur arbennig iawn.

Ac nid dyna'r unig lenorion Cymraeg benywaidd sy'n hanu o Lannau Mersi. Yn *Yr Angor* y mis cyn cynnal yr ŵyl, cafwyd ysgrif wefreiddiol gan Dr Pat Williams am nofel Mary Oliver Jones, *Nest Merfyn*, a welodd olau dydd mewn cyfnodolion yn 1892 ac 1893, ac sydd newydd ei hailgyhoeddi. Dyma un o'r nofelau trosedd cyntaf yn y Gymraeg, un o naw nofel a luniodd yr awdures cyn ei marwolaeth annhymig yn 35 oed. Cymraes ail genhedlaeth oedd Mary Oliver Jones, a fu'n byw ar y Glannau ar hyd ei hoes.

Un arall o'r Glannau oedd Jennie Thomas. Fe'i cofir yng Nghymru yn bennaf fel un o gyd-awduron *Llyfr Mawr y Plant*, ond mae ganddi lyfr arall sy'n gampwaith, sef *Dyddiau Hyfryd: Capel M. C. Woodchurch Road Birkenhead, 1906-1972*. Ymdrech i ail-lunio'r cofiant capel a gweld byd Cymraeg tref yn Lloegr trwy lygaid plentyn ac oedolyn ifanc yw *Dyddiau Hyfryd*. Hollol enigmatig ac mae'n fy atgoffa ar brydiau o *Y Lôn Wen* Kate Roberts.

Yn yr ŵyl ei hun cafwyd darlith wirioneddol werthfawr gan Dr D. Ben Rees am Gweneth Lilly. Ychydig a wyddwn amdani cyn hyn, serch ei bod yn awdur pwysig i blant, ac wedi cyhoeddi hefyd straeon a nofel ar gyfer oedolion. Clywsom am ei magwraeth yng nghapel Cymraeg y Bedyddwyr yn Everton Village, capel a lwyddodd i fagu cnwd o Gymry da ganol yr ugeinfed ganrif. Ffrind iddi oedd Eleanor Namora Williams, awdures *Carneddog a'i Deulu*, hithau hefyd o Lerpwl ac yn gynnyrch bywyd Cymraeg y ddinas. Rhoddwyd cryn sylw i stori Gweneth Lilly, 'Cymdogion' yn y gyfrol *Masgiau*, a



Norma Owen yn cyflwyo Simon Brooks

dylanwad ardal Anfield ar ei gwaith. Y peth cyntaf wnes i ar ôl mynd adre oedd chwilio am y gyfrol ar y gwefannau llyfrau ail-law, ond heb lwc. Mor anodd weithiau yw cael hyd i'n treftadaeth!

Hyfrydwch oedd dweud gair wedyn am Marion Eames. Mae hi'n nofelydd pwysig a themâu ei gwaith – megis goddefgarwch crefyddol, a pharch at grwpiau lleiafrifol – yn dod yn bwysicach bob dydd. I mi, ei nofel fawr yw *I Hela Cnau*, stori am Benbedw yn y 1860au. Nofel graff sy'n gofyn cwestiynau pwysig i ninnau sydd efo cysylltiadau â Chymru, Lloegr a bywyd Cymraeg Lloegr. I ble 'dan ni'n perthyn yn y pen draw?

Gyda'r nos, roedd cyfle i ymlacio a mwynhau Côr y Brythoniaid o Flaenau Ffestiniog. Llywyddwyd y noson yn ddeheuig mewn Cymraeg a Saesneg gan David Williams, gynt o Penny Lane. Roedd eglwys y Methodistiaid ar Elm Hall Drive yn orlawn; rhaid fod oddeutu 200 yno. Noson ardderchog yn wir!

Fore Sul cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel Bethel o dan ofal y Parch. David Owens, Rhosllanerchrugog, a'r Parch Ddr D. Ben Rees, Lerpwl. Diwedd teilwng i ŵyl arall mewn cyfres o wyliau sydd wedi bod yn fodd inni ddeall diwylliant Lerpwl a Chilgwri o'r newydd.

Coffa da am y merched disglair hyn a aned ac a faged ar Lannau Mersi ac sy'n glod i'w dreftadaeth Gymraeg.

*Simon Brooks*

(o'r *Angor*, papur Cymry Glannau Mersi a Manceinion, Mehefin 2024)

## Tripiau ysgolion Sul

Bu cyfnod pan oedd pob pentref a thref, bron, dros Gymru yn cynnal eu trip ysgol Sul blynyddol yr adeg yma o'r flwyddyn. Bydd gan lawer ohonom atgofion o dripiau i Ynys y Barri, Dinbych-y-pysgod, y Rhyl neu Landudno, efallai. Yn fwy diweddar bu tripiau i ganolfannau gwyliau fel Butlin's, Pwllheli, ac Oakwood ym Mhenfro, a mentrodd rhai ymhellach i Alton Towers neu sŵ Bryste neu Gaer.

Cofiaf y cyfnod pan oedd Cyngor yr Ysgolion Sul yn trefnu tripiau ysgol Sul yn Butlin's, gyda sioeau gan gymeriadau fel Jeifin Jenkins ddechrau'r 90au. Daeth dros 6,500 o blant ynghyd ar yr un diwrnod i Bwllheli pan drefnwyd y trip cyntaf gennym.



Tybed pa ysgolion Sul sy'n dal i drefnu trip blynyddol erbyn hyn? Beth am yrru llun atom o drip eleni, gan sicrhau caniatâd i'w gynnwys, wrth gwrs. Rhowch ychydig frawddegau'n nodi enw'r ysgol Sul ac i ble'r aethoch chi.

Dyma lun o drip ysgol Sul Chwilog ar eu hymweliad â'r Gelli Gyffwrdd, ger y Felinheli, ganol Mehefin eleni.

*Aled Davies*
*Cyngor yr Ysgolion Sul*

# Solidariaeth



Anodd yw cyfieithu rhai geiriau gydag un gair perffaith ac mae *solidarity* yn un o'r rheiny. Os ewch chi i'r *Geiriadur Mawr*, fe welwch – 'cydlyniad, cyd-dynnu, cydymddibyniaeth, bod yn gytûn'. O fynd at Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones (*Geiriadur yr Academi*), cewch ddewisiadau ychwanegol fel 'undod, undeb, cefnogaeth, cydsafiad'. Yna yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* awgrymir y canlynol fel diffiniad – 'undod neu gytundeb, teimlad neu weithred, rhwng unigolion a chanddynt fuddiannau'n gyffredin'.

Hyd yn oed yn ein hoes seciwlar ni, fe welwn arwyddion o bobl yn teimlo'r angen i gydio'n dynn mewn rhywbeth cadarn. Taith droellog yw hon i lawer ar y ddaear, ac mae pobl yn parhau i arddel arferion sy'n cysuro ac yn bathu rhai newydd yn ogystal. Does ond rhaid cofio pobl yn gosod pentyrrau o flodau a theganau meddal tu fas i balas Buckingham adeg marwolaeth Diana. Daeth yn amlwg, er bod cymdeithas yn ymddieithrio oddi wrth y defodau crefyddol, bod pobl angen rhywbeth i lynu wrtho o hyd.

Bydd rhai ohonom yn dewis glynu wrth fynychu oedfaon eglwys, eraill yn diolch eu bod yn gallu dewis picio mewn fel rhyw fath o *pay-as-you-go*, a rhai yn gwerthfawrogi bod gweinidog yn dewis y geiriau i'w dweud ar adegau tyngedfennol. Da o beth, wrth gwrs, yw bod drws pob eglwys ar agor i bawb yn ddiwahân, a bod eglwys sy'n rhan o'i chymuned yn gallu gwneud gwahaniaeth a gafael llaw pan fo angen.

Ond beth yw gwir ystyr solidariaeth Gristnogol? Wrth ystyried holais rhai o'm cyfeillion a'm cyd-weithwyr (ymholiad agos-i'r-asgwrn ar hyn o bryd ym myd y celfyddydau â'r toriadau fel cymylau du'n bygwth). Dywedodd un ei fod yn cofio streic y glowyr; soniodd un arall am yr undeb llafur yng ngwlad Pwyl (o'r enw Solidarity) a dyfodd mor gyflym fel y bu i lywodraeth y wlad ei gwneud hi'n anghyfreithlon i fod yn aelod ohono. Soniwyd hefyd gan nifer fel y bu iddynt osod llun o fflag Wcráin tu ôl i'w llun personol ar y gwefannau cymdeithasol. Aeth un o fy nghyfoedion mor fanwl â sôn am Santes Maria Skobtsova a weithiodd yn ddiflino ym Mharis i edrych ar ôl yr anghenus ac a achubodd fywydau nifer fawr o blant Iddewig. Fe brofodd hi sut y gall y penderfyniad i gydsefyll ag eraill fod yn weithred fentrus a pheryglus, a hithau'n cael ei dedfrydu i farwolaeth.

Y Pab John Paul II ddywedodd fod 'mwy i solidariaeth na dim ond cydymdeimlad amwys'; mae angen ymdeimlad o gymuno penodol. Yn ein hanian, yr ydym wedi ein clymu ynghyd fel pobl. Allwn ni ddim cynnal ein hunain heb gydnabod ein gilydd, gwerthfawrogi'n gilydd, a galluogi ein gilydd i fod yn agored i roi a derbyn.

Dywedodd Ken Leech yn ei lyfr *The Sky is Red* nad yw 'solidariaeth yr un peth ag empathi a bod peryg inni gwympo i'r fagl o feddwl ein bod yn hollwybodus am eraill'. Dylem, meddai Leech, geisio 'cynnwys y lleisiau hynny sydd heb eu clywed yn y sgwrs a dylem wrando heb ddweud – dwi'n gwybod sut ti'n teimlo'. Mae angen inni weld nad ein poen ni yw poen pobl eraill, ond eto gweld y poen hwnnw fel rhywbeth y mae'n rhaid inni weithredu arno a hynny'n union fel pe bai'n boen i ni.

Er nad yr un yw ein hanghenion, yr ydym mewn perthynas â'n gilydd yn yr angen ac oherwydd yr angen. Mae bod yn gynghreiriaid hefyd yn golygu bod yn agored i her a newid. Dietrich Bonhoeffer ddywedodd fod 'Cristnogion wedi'u galw i fod yn gyfryngwyr ac yn gynrychiolwyr i sefyll dros y rhai bregus yn ein byd'.

Nid hawdd bob amser yw arddel y ffaith fod Iesu wedi dewis sefyll gyda'r rhai ar y cyrion, yn y corneli a'r cysgodion. Nid ceisio eu newid wnaeth e, na chynnig ateb na datrysiad chwaith, ond gweld eu hangen a'u caru. Roedd yn wylaidd, yn amyneddgar ac yn greadigol yn ei gymuno â phawb. Mae'n galw arnom ni i 'newynu a sychedu am gyfiawnder' (Matthew 5:6) ac i fod yn ddewr wrth geisio ein gorau i 'chwalu'r wal o gasineb [sydd] yn ein gwahanu ni' (Effesiaid 2:14).

Efallai eich bod yn meddwl – ie, ie, ond sut mae bod yn wirioneddol weithredol dros gyfiawnder mewn byd o ormes a thrais, lle mae plant bach yn llwgu, lle mae 90% o'r cyfoeth gan 10% o'r boblogaeth, a lle mae arweinyddion yn dewis gwario ar arfau niwclear a gwleidyddion yn gwneud dim ond canmol eu hunain a beirniadu eraill?

Wel, mentraf ddweud nad *apathy* yw *empathy*. A dyma ddod at fyrdwn fy nghân – ar Orffennaf y pedwerydd eleni, pleidleisiwch dros yr anghenus, dros y rhai llai ffodus na nyni, dros yr arall a'r eraill – yn agos ac ymhell – sy'n ymbilio arnom i'w hystyried, eu gweld a'u clywed. Ac, os gwelwch yn dda, pleidleisiwch mewn solidariaeth â'r Crist fydd yn sefyll yn gadarn wrth eich ochr wrth ichi ysgrifio'r groes yn y blwch.

*Siân Meinir, gyda diolch i wefan www.cristnogaeth21.cymru*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru